**Cofnodion cyfarfod diweddaru Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 9.30am ddydd Iau 10 Ebrill 2025**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Cath Smith (Cadeirydd)<br>Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans, Emlyn Roberts, Caroline Sanger-Davies, Gareth Davies, Dewi Hughes, Paul Savage, John T Davies |
| **Trwy wahoddiad:** | Maria Richards (Llywodraeth Cymru) |
| **Y Swyddogion Gweithredol yn bresennol:** | Jose Peralta (Prif Weithredwr)<br>Gareth Jones (Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol)<br>Meilyr Ceredig (Pennaeth Hyrwyddiadau a Gweithrediadau)<br>Jo Horder (Ysgrifenyddiaeth) |

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chroesawodd yn arbennig y ddau aelod newydd o'r Bwrdd, Dewi Hughes a Paul Savage. Gwnaed cyflwyniadau byr.

Nodwyd ymddiheuriadau gan Mike Humphreys a Vicki Spencer-Francis.

2. **Gweithgareddau a Diweddariadau o'r Diwydiant**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar. Y prif weithgareddau a amlygwyd oedd:

- Cig Oen Cymru - mae'r paratoadau ar gyfer ymgyrch 2025 yn parhau a chânt eu cwblhau erbyn mis Mai;
- Cig Eidion Cymru – lansiwyd arolwg YouGov i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer yr amgyffrediad o Gig Eidion Cymru yn Lloegr;
- Porc o Gymru – roedd gwaith yn mynd rhagddo i greu ryseitiau newydd i fusnesau eu defnyddio yn eu marchnata. Bydd y rhain yn barod erbyn mis Mehefin;
- Mae'r arolwg Sylfaen Dŵr wedi cau, gyda dros 200 o ymatebion wedi'u derbyn. Roedd y canlyniadau bellach yn cael eu dadansoddi.
- Roedd contract Kantar wedi'i ymestyn am flwyddyn arall, mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB). Ar gyfer y flwyddyn ganlynol, bydd gofynion data yn cael eu pennu a bydd gwahanol opsiynau ar gyfer cyrchu'r data hwnnw yn cael eu hystyried;
- Mae gwaith gyda Grŵp Cig-weithio yn parhau, gyda'r aelodau'n cyfarfod â mentoriaid y diwydiant ar hyn o bryd. Cynhelir sesiwn nesaf y Grŵp, Un Iechyd, ddiwedd mis Ebrill;
- Roedd gwaith ar y prosiect sylfaenol amgylcheddol mewn cydweithrediad ag AHDB yn parhau;
- Roedd pob archwiliad PGI 2024/25 wedi'i gwblhau, gyda 45 o archwiliadau ac 11 o wiriadau ar hap wedi'u gwneud;
- Roedd cynlluniau'n parhau ynghylch presenoldeb HCC yn nigwyddiad Defaid NSA 2025;

- Bydd HCC yn mynychu rhwng 10 a15 o farchnadoedd da byw yn ystod mis Mai i gysylltu â thalwyr ardoll a chael adborth ganddynt;
- Roedd cyfarfodydd wedi'u trefnu gyda'r prif archfarchnadoedd i drafod ymgyrchoedd ar gyfer y flwyddyn i ddod;
- Mynychwyd tair ffair fasnach ryngwladol, pan ddenwyd cwsmeriaid a chysylltiadau newydd;
- Roedd cynllunio ar gyfer stondin HCC yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru wedi dechrau, gyda syniadau ar gyfer dyluniad y stondin yn cael eu hystyried. Cafodd cyflenwr ar gyfer adeiladu'r stondin ei benodi.

3. **<u>I dderbyn diweddariad am Bwyllgor ETRA</u>**

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd ddiweddariad llafar am y sesiwn dystiolaeth.

Roedd y papur tystiolaeth a baratowyd ar gyfer y Pwyllgor yn rhagorol ac wedi rhoi darlun rhesymegol a chynhwysfawr o natur a manylion gwaith HCC.

Cafodd HCC a'r Cadeirydd eu canmol am eu cyfraniad gan aelodau'r Bwrdd a oedd wedi arsylwi'r Pwyllgor.

Cytunwyd y byddai'r Weledigaeth newydd yn gyfle pwysig i dynnu sylw at y sefyllfa a'r goblygiadau presennol wrth symud ymlaen.

Cynhelir sesiwn derfynol y Pwyllgor gyda Llywodraeth Cymru ym mis Mai, a disgwylir yr adroddiad terfynol cyn gwyliau'r haf.

4. **<u>I dderbyn diweddariad am y Weledigaeth 2026 – 2030</u>**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar a nododd yr amserlen fras ar gyfer datblygu'r Weledigaeth newydd.

Bydd yr ymgynghoriad rhanddeiliaid cychwynnol gyda sefydliadau a phroseswyr wedi'i gwblhau erbyn dechrau mis Mehefin. Bydd holiadur yn cael ei ddatblygu i roi cefndir i'r trafodaethau.

Yna bydd papur gwyrdd yn cael ei baratoi er mwyn rhoi sgerbwd o sut olwg fydd ar y Weledigaeth. Bydd hyn yn sail i drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a fydd wedi'u cwblhau erbyn 30 Mehefin. Yna bydd ymgynghoriad talwyr ardoll yn cael ei lansio a'i gwblhau erbyn diwedd mis Awst.

Bydd papur gwyn, a fydd yn ffurfio fersiwn mwy cyflawn o'r Weledigaeth, yn cael ei baratoi erbyn yr Hydref, yn barod i'w gyflwyno i'r Bwrdd. Y nod yw cwblhau'r Weledigaeth erbyn diwedd y flwyddyn i baratoi ar gyfer lansiad ym mis Ebrill 2026.

5. **<u>I dderbyn diweddariad am y Cynllun Gweithredol</u>**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar.

Roedd y Cynllun ar gyfer 2025/26 wedi cael ei anfon at Lywodraeth Cymru Roedd un eitem yn cael ei hadolygu. Bydd y dangosyddion perfformiad allweddol terfynol yn cael eu cwblhau dros y pythefnos nesaf a bydd y Cynllun wedi'i gwblhau'n llawn erbyn diwedd mis Ebrill i'w gymeradwyo gan y Gweinidog.

6. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr wybodaeth am y berthynas rhwng prisiau toriadau

cig eidion yn y siopau a phrisiau pwysau marw gwartheg, a thynnodd sylw at yr heriau o ran cystadleugarwch cynhyrchion cig eidion yng Nghymru a Lloegr. Cyflwynir papur i'r Bwrdd pan fydd y gwaith hwn wedi dod i ben.

Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i ystyried effaith tariffau Trump ar ffactorau sydd yn cynnwys y fasnach allforio, costau mewnbwn a’r defnydd o gig.

7. **<u>Dyddiadau cyfarfodydd i ddod</u>**

Dydd Iau 8 Mai 2025 – cyfarfod ffurfiol o Fwrdd HCC

Dydd Iau 12 Mehefin 2025 – Diweddariad Bwrdd HCC drwy gyfrwng Teams

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd**